

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Prif amcan yr astudiaeth hon oedd ymchwilio ar sut mae defnydd o l-pads yn effeithio ar ddatblygiad plant. Y ddau brif elfen ystyriwyd oedd effaith ar sgiliau echddygol manwl, a sut mae amser sydd yn cael ei wario ar l-pads yn meddwl bod plant yn cael llai o brofiadau bywyd go iawn. Bydd y papur hwn yn trafod cryfderau a gwendidau dull arsylwi, a pam daethent i'r casgliad taw dull arsylwi oedd yr un fwyaf defnyddiol mewn amgylchedd ysgol oherwydd diffyg rheolaeth byddai gan yr ymchwilydd (Trip, 2018. Tud 8). Elfen bwysig iawn dyfodol y cwricwlwm newydd yw ystyriaeth y pedwar diben, ac felly trafodwyd sut gallent adfyfrio o'r achos critigol er mwyn sicrhau cyrhaeddant agweddau'r pedwar diben. Yna bydd y papur yn pwyso a mesur y llenyddiaeth o'r agweddau crybwyllwyd uchod. Bydd gwerthusiad yn trafod sut mae'r llenyddiaeth yr achos critigol wedi lliwio syniadau o ddysgu ac addysgu da'r dyfodol, trwy ddefnydd o fodel Beirniadau Wedi Adfyfrio gan Gibbs (1988).

Arsylwi

Mae 425 o ddisgyblion yn yr ysgol, rhwng 3 a 11 mlwydd oed. Rhannwyd y blynyddoedd mewn i ddwy ffrwd. Dros y tair blwyddyn ddiwethaf mae 11% o'r plant yn gymwys i gael prydiau cinio am ddim, ac mae hyn yn llai na'r canran cenedlaethol o 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod bod 14% o'r plant yn cael anghenion dysgu ychwanegol. Yn ôl adroddiad Estyn 2018, arddangosodd yr ysgol lefel ragorol yn ôl Gofal, cefnogaeth ac arweiniad. Medrau'r ysgol ddatblygu'r cymorth hwn trwy gynnal nifer o weithgareddau fel 'Cŵl wedi cinio' a 'Clwb Cwtsh' (Estyn, 2018, tud. 1).

Y dosbarth dan arsylwad yn yr achos yma, yw dosbarth blwyddyn 1. Fel nodir yn nodiadau arsylwi (Atodiad 3) roedd y dosbarth yn cynnwys 25 o blant, rhwng yr oedran o bump i chwech. Roedd y dosbarth yn gallu cymysg, ond nododd yr athrawes bod y plant wedi cael eu grwpio yn ôl gallu. Nid oedd gan un plentyn y dosbarth anghenion dysgu ychwanegol penodol, ond roedd un disgybl ag anabledd oedd yn cael sesiynau un i un penodol. Roedd gan y dosbarth cynorthwyydd dosbarth, ond yn ystod yr arsylwi roedd y cynorthwyydd yn gwneud sesiynau darllen tu allan i'r dosbarth.

Arddangosodd y plant parch tuag at yr athrawes wrth iddi gyflwyno tasgau'r dosbarth. Yn ogystal â hyn roedd y plant yn frwdfrydig iawn er mwyn gallu cychwyn y tasgau oedd o amgylch yr ystafell dosbarth, symudwyd y plant o un ddarpariaeth i'r nesa yn annibynnol. Nodwyd gan Estyn (2018) bod bron pob disgybl yn dangos brwdfrydedd a pharch tuag at ei waith ysgol.

Methodoleg

Mae Cohen, Manion a Morrison (2017, tud. 404) yn dadlau er efallai bod digwyddiad critigol ond yn digwydd unwaith ac yn anarferol, mae'n bwysig oherwydd gall uwchleuo mewnwelediad pwysig i berson neu sefyllfa. Gallwn ddadlau er bod y digwyddiad wedi cael ei uwchleuo gan un person, gall hefyd bod yn ffordd o wyllo am yr un fath o ymddygiad mewn plant neu sefyllfaoedd eraill. Cyflwynir Tripp (2018, tud. 8) y syniad o achos critigol nid fel digwyddiad penodol, ond fel digwyddiadau pob dydd. Mae'r digwyddiad yn troi i achos critigol yn y ffordd rydym ni yn dehongli'r digwyddiad. Yn yr un modd mae'r achos critigol yn dod o werth yn ol pwysigrwydd rydym ni yn rhoi ar y digwyddiad. O ganlyniad mae'r ddau

awdur yn cyfuno'r syniad o bwysigrwydd y digwyddiad yn gyd-destun y wybodaeth mae'n rhoi i'r ymchwilydd, am y person neu'r sefyllfa.

Ar gyfer yr ymchwil hyn penderfynwyd creu achos critigol trwy ddull o arsylwi. Prif gryfder sydd i ddefnyddio'r ffurf o achos critigol fel rhan o ymchwil yw nad oes rhagdybiaeth gan yr ymchwilydd (Grelmler, 2004, tud. 66), oherwydd mae cyd-destun y digwyddiad yn cael eu creu gan yr ymchwilydd. Mae achos critigol yn sicrhau gwybodaeth ddisgrifiadol a manwl (Cohen. Et al, 2017, tud. 253-4), ac yn bellach yn ddefnyddiol iawn mewn amgylchedd lle mae gan yr ymchwilydd llai o reolaeth dros ddigwyddiadau. Roedd hyn yn fuddiol yn ystod yr ymchwil hyn oherwydd roedd llai o gyfyngiadau ar ymddygiad a digwyddiadau a gall cael eu dehongli fel achos critigol.

Ond ar y llaw arall, gall diffyg rheolaeth dros yr amgylchedd ac ymddygiad bod yn wendid. Oherwydd gall creu newidynnau allanol, ac o ganlyniad mae'n anodd darganfod achos ac effaith. Yn ychwanegol, oherwydd weithiau bod y canfyddiadau wedi cael eu tynnu o un person neu grŵp bach o bobl mae'n anodd cyffredinoli i eraill (Cohen et al, 2017, tud. 255-6).

Pwynt hanfodol ar gyfer cryfder arsylwi yw bod yr ymddygiad yn cael eu gweld mewn sefyllfaoedd naturiol. Yn ogystal â hyn mae'r dull o arsylwi hyn yn cael llai o effaith adweithiol, yn nhermau tuedd ac effaith moesegol o gynnal ymchwil mewn amgylchedd labordy (Cohen. et al, 2017, tud. 253-4).

Tra bod hyn yn wir, mae hefyd rhaid ystyried effaith arsylwi cyfranwyr. Hyn yw bod yr ymchwilydd yn newid o fod yn arsylwr yn unig, i arsylwyr ac yn gyfranogwr i'r ymchwil. Ac mi fudd rhaid ystyried hyn wrth feddwl faint o effaith mae'r ymchwilydd wedi cael ar yr ymddygiad, neu yn rhan o'r ymddygiad eu hun (Punch, 2011, tud. 156).

Pedwar Pwrpas

Prif destun blwyddyn 1 oedd y llyfr Marged a'r dinosor. Roedd y plant dros yr wythnos diwethaf wedi bod yn darllen y llyfr ac yn ysgrifennu brawddegau disgrifiadol am y cymeriadau yn y llyfr. Yn ystod y wers hon roedd yr athrawes wedi darparu gweithgareddau oedd yn gyd fynd a thestun y llyfr. Er mwyn datblygu cymhwysedd digidol roedd angen i'r plant defnyddio clyniadur er mwyn tynnu llun o'r cymeriadau o'r llyfr, ac yna ysgrifennu

brawddeg. Yn gyflym iawn roedd hi'n amlwg roedd nifer o blant ddim wedi cael llawer o brofiad o ddefnyddio clyniaduron. Deilwyd yr achos critigol o'r gweithgaredd hwn, welwyd dau blentyn yn trio tynnu lluniau ac ysgrifennu ar y clyniaduron trwy ddefnyddio ei fysedd ar y sgrin nifer o weithiau yn ystod y gweithgaredd (Atodiad 3). Er bod y ddau blentyn wedi cael hyfforddi o sut i ddefnyddio llygoden y cyfrifiadur, roedd y plant dal yn trio defnyddio ei fysedd ar y sgrin. Yn syth cysylltwyd y digwyddiad hwn gyda phlant yn gwario gormod o amser o l-pads.

Datblygodd Donaldson pedwar diben fel rhan o Ddrafft Cwricwlwm Cymru 2022, a hyn oedd 'man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad am Gwricwlwm i Gymru 2022' (Dyfodol Llwyddiannus, 2015, tud. 6). Ym mhellach mae'r cwricwlwm yn trio annog athrawon i roi profiadau i'r disgyblion fel ffordd o ddysgu. Y diben cyntaf yw bod plant yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Fel is syniad i'r diben hon, mae'n trafod bod angen i blant gallu defnyddio technolegau digidol yn greadigol.

Yn amlwg bod defnydd o l-pads yn rhan fawr iawn o ddiwylliant heddiw. Ond gallwn ddadlau o'r achos critigol bod y plant yn cael llawer o allu wrth ddefnyddio l-pads, ond nid oes ganddynt y profiad o sut i ddefnyddio technolegau digidol eraill. Yn ogystal â hwn gallwn hefyd dadlau bod y plant yn yr achos critigol wedi trio trosglwyddo'r ffurf o ddefnyddio l-pads i hefyd helpu nhw i ddefnyddio clyniaduron. Er enghraifft mae'r plant yn ymwybodol bod angen defnyddio bysedd wrth ddefnyddio'r l-pads. Felly gan ei bod wedi cael llai o brofiad o ddefnyddio clyniaduron, efallai credwyd bod yr un sgiliau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ddyfeisiau technolegol eraill. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnolegau digidol yn rhan hanfodol mewn diwylliant sydd yn drawsnewidiol yn ddatblygiadau technolegol, ac yn amlwg yn rhan o fyd gwaith a bywyd pob dydd y dyfodol.

Yn ail, mae hefyd diben sydd yn trafod sut i ddatblygu plant i fod yn unigolion iach a hyderus. Fel rhan o'r diben hon, dywedai Llywodraeth Cymru (2015, tud. 8) bod angen i blant cael "sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant".

Mae yna lwythi o erthyglau papur newydd yn dadlau bod twf defnyddio l-pads yn effeithio gallu plant i ddal pensil, a hefyd ei sgiliau echddygol manwl (The Telegraph, 2018, The BBC, 2018). Mae nifer o wahanol weithgareddau sydd yn dibynnu ar ein sgiliau echddygol manwl. Er enghraifft mae'r gallu i wisgo, dal gwrthrychau bach a defnyddio siswrn. Ac yn fwy penodol mae sgil o ysgrifennu dal yn rhan hanfodol iawn mewn bywyd pob dydd ac i gael swyddi. Mae datblygiad technoleg yn rhan hanfodol mewn addysg. Ond mae angen ystyried

ydy'r defnydd o l-pads mewn ystafelloedd dosbarth yn cyfyngu datblygu eu sgiliau echddygol manwl a dealltwriaeth eang o dechnoleg.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae yna nifer o gystylliadau allwn drafod yn ôl effaith technoleg. Ond y ddau brif faes bydd y papur hwn yn adolygu bydd effaith technoleg ar sgiliau echddygol manwl, ac effaith profiadau byd go iawn ar ddatblygiad a dealltwriaeth.

Mae sgiliau echddygol manwl yn cynnwys symudiadau'r cyhyrau bach sydd yn yr ysgwydd, yn y fraich, arddwn, dwylo a bysedd. Mae sgiliau echddygol manwl yn galluogi nifer o swyddogaethau fel ysgrifennu, dal gwrthrychau bach a defnyddio siswrn (GIG Cymru, 2018). Mae defnydd o sgiliau echddygol manwl yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd, ac mae diffyg y sgiliau yma yn gallu arwain i broblemau academaidd a phroblemau pob dydd. Er enghraifft gallai effeithio methu troi tudalennu mewn llyfr, cyflawni gofal personol, gallu ysgrifennu a defnyddio cyfrifiaduron (Cambridgeshire Community Services NHS Trust, 2018, tud. 2).

Mae yna nifer o weithgareddau sydd yn cael eu hawgrymu gan GIG Cymru (2018), gall y gweithgareddau hyn cael ei gyflawni yn yr ysgol neu yn y tŷ. Er enghraifft chwarae gyda thoes, defnyddio pegiau, Lego a nifer o weithgareddau arall.

Strevig (2009, tud. 5) yn dadlau "Fine motor development does not come easily or naturally to some children". Yn union fel sgiliau mathemateg a darllen, mae sgiliau echddygol manwl angen cael ei fagu gan gyfarwyddiadau a phrofiadau. Un o'r brif garreg filltir sydd yn ddatblygiad o sgiliau echddygol manwl yw bod nhw'n dysgu sut i ynysu bysedd unigol (GIG Cymru, 2018). Mae angen i'r plant cael llawer o brofiadau wrth chwarae a dal nifer o ddeunyddiau, teganau a siapau gwahanol er mwyn iddynt allu gwella cryfder a deheurwydd yn y cyhyrau bach yn ei ddwylo (Penfield Building Blocks, 2019). Felly, efallai bod hyn yn dangos bod angen cael gweithgareddau sydd yn hybu datblygiad sgiliau echddygol manwl fel rhan hanfodol yn y dosbarthiadau.

Mae effaith technoleg ar sgiliau echddygol manwl yn bwnc cymharol newydd. Nid oes llawer o ymchwil wedi eu gwneud sydd yn uniongyrchol wedi edrych ar effaith technoleg ar sgiliau echddygol manwl. Ond mae yna nifer o erthyglau papur newydd sydd wedi cyflwyno'r ddadl bod technoleg yn cael effaith wael ar sgiliau echddygol, sydd wedi rhoi sylw ar y maes ac

wedi hybu ymgyrchoedd. Dywedir yn erthygl papur newydd The Telegraph (2018), bod gormodedd o ddefnydd technoleg yn arwain i blant fethu dal pensil. Yn syml dadlau erthygl gan y BBC (2018) bod rhieni prysur yn rhoi l-pads, neu “electronic babysitters” (Strevig, 2010, tud. 2) i'r plant ac felly ddim yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol er mwyn gallu ysgrifennu. Yn 2018 cyhoeddwyd bod gan 58% o gartrefi l-pads, neu fath o ddyfais debyg. Gallwn ddadlau bod yn anodd osgoi effaith technoleg gan fod y norm diwylliannol yn cael llai o bwyslais ar sgiliau echddygol manwl (Ofcom, 2018, tud.3)

Ond yn ychwanegol mae rhai yn dadlau bod y sgil o law ysgrifen dal yn hanfodol mewn addysg, gwaith a bywyd pob dydd (Petrescu, 2014, tud. 394). Un ymgyrch sydd yn trio pwysleisio pwysigrwydd llaw ysgrifen yw 'Write Your Future'. Pwrpas yr ymgyrch yw pwysleisio pwysigrwydd y sgil o ysgrifennu, a thrio creu profiadau a gweithgareddau hwylus er mwyn hybu ysgrifennu. Mae'r ymgyrch yn gweithio gydag athrawon, rhieni, plant ac academyddion er mwyn creu fwy o ymchwil yn y maes hwn.

Ond mae yna rhai sydd wedi ymchwilio ar sut gallent gyfuno technoleg a sgiliau echddygol manwl. Gwnaeth Hinrichs a Quigley (2015) ymchwil penodol ar law ysgrifen, ac ar sut oedd pen digidol yn gallu dysgu llaw ysgrifen. Gwelwyd bod technoleg yn dod yn rhan o'r ystafell ddosbarth, ond hefyd bod llaw ysgrifen dal yn cael eu dysgu mewn ffordd fwy traddodiadol o ddefnyddio papur a phensil. Tynnwyd sylw at y ffaith bod dysgu sut i ysgrifennu mewn modd traddodiadol gyda llawer o fuddion addysgeg, ond synnwyd os nad yn y dyfodol agos bydd plant yn dysgu sut i ysgrifennu ar ddyfeisiau neu gan ddefnyddio peniau digidol. Yn y darganfyddiadau nodai'r athrawon bod y plant wedi arddangos gostyngiad yn eu gallu ysgrifenedig wrth ddefnyddio peniau digidol, a nododd y plant bod defnyddio papur a phensil yn fwy hawdd a cywir. Serch hynny un ddyfais o dechnoleg oedd wedi arddangos yn ffafriol i'r plant a'r athrawon i wella safon ysgrifennu oedd rhywbeth o'r enw 'Livescribe'. Livescribe yw pen digidol sydd yn cael ei ddefnyddio ar bapur, ac yna sydd yn trosglwyddo yn syth beth rydych wedi ysgrifennu i ddyfais ddigidol. Felly mae ymchwil sydd yn uwchleuo yr agweddau positif o gyfuno technoleg ac ysgrifennu traddodiadol.

Yr ail ddadl yn y maes hwn yw bod defnydd o l-pads yn meddwl bod plant yn cael llai o brofiadau sydd yn hybu eu dysgu a dealltwriaeth. Cyflwynodd Ofcom (2019, tud. 3) erthygl oedd yn edrych ar ddefnydd ac agweddau tuag at ddefnydd o dechnoleg. Ffeindwyd bod 69% o blant rhwng yr oedrannau o 3-4 yn defnyddio tabled fel ffordd o gael mynediad i'r we. Yn ogystal â hyn ffeindwyd bod 52% o'r plant rhwng oedrannau o 3-4 yn gwario 9 awr yr wythnos yn mynd ar lein. Dangoswyd bod yr ystadegau gwariwyd ar lein hefyd yn codi wrth i'r oedrannau fynd yn fwy.

Cyflwynir nifer o ymchwilwyr y syniad o rieni yn defnyddio technoleg fel gwarchodwr plant (Palmer, 2007, tud. 254). Ac yn ogystal â hyn mae technoleg yn creu llai o gyfleoedd i blant fynd allan a chwarae yn y natur, dringo coed a mynd ar eu beiciau (Strevig, 2010, tud. 8). Dadleuwyd rhai bod plant nawr yn dibynnu ar dechnoleg fel rhan fawr o'i chwarae, ac yn cael effaith uniongyrchol ar ei ddatblygiad synhwyrau a sgiliau echddygol (Hatch, 2011, tud. 22).

Un o'r prif ymchwilwyr yn y maes o yma oedd Jean Piaget, a hyd at heddiw rydym ni'n defnyddio ei waith e fel sail ar gyfer ddatblygiad plant. Y brif ardal oedd o ddiddordeb i Piaget oedd datblygiad gwybyddol, a sut fel bodiau dynol oedden ni'n ymateb a dysgu o'r amgylchedd (Huwitt & Hummel, 2003, tud. 1). Dadleuai Piaget bod dysgu yn dod o blant yn rhyngweithio gyda'r amgylchedd (Smidt, 2013, tud. 19).

Datblygwyd Piaget rhai syniadau ar sut mae plant yn datblygu o'r amgylchedd. Dau syniad ddaeth o theori Piaget oedd cymhathu a ymgydaddasu. Cymhathu yw pan mae plentyn yn cael rhyw fath o amgylchedd newydd, ac maent yn defnyddio gwybodaeth sydd gyda nhw yn barod er mwyn dod dros broblem neu sefyllfa newydd. A ymgydaddasu yw'r gwrthwyneb ble rydym yn newid ein strwythurau gwybyddol er mwyn gwneud synnwyr o'r amgylchedd (Huwitt & Hummel, 2003, tud. 1). Credwyd Piaget bod y prosesau hyn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol oes, a phwysleisiau hyn y pwysigrwydd o sut mae pobl yn rhyngweithio gyda'r amgylchedd.

Yn bellach datblygwyd Piaget y camau o ddatblygiad gwybyddol. Mae yna bedwar rhan yn y camau sydd yn dechrau o fabandod hyd at oedolaeth. Un cam oedd y cam gweithredol concrit, yn ôl Piaget mae plant fel arfer yn y cam hwn rhwng yr oedrannau o saith i un-ar-ddeg (Slater a Bremner, 2011, tud. 306). Yn y cam hwn dadlau Piaget bod plant yn newid eu ffordd o feddwl, ac yn datblygu'r sgiliau mwy aeddfed o ddatrys problemau (McLeod, 2010, tud. 1). Ond, er bod ei gallu i ddatrys problemau wedi gwella, roedd y plant ond yn gallu datrys y problemau trwy brofiad a defnydd o wrthrych byd go iawn.

Felly gallwn ddadlau, yn hyd destun y camau datblygiad gwybyddol, bod plant sydd yn cael llai o brofiadau byd go iawn yn mynd i gael llai o ddealltwriaeth o'r amgylchedd a sgiliau datrys problemau. Ond, dadleuai nifer nid oedd Piaget wedi ystyried effaith diwyllianol ar ddatblygiad gwybyddol (Slater a Bremner, 2011, tud. 308). Wrth ystyried ein diwylliant ni heddiw, mae fwy o ffordd eisteddog o fyw a phlant yn gwario fwy o amser yn y tŷ yn defnyddio dyfeisiau technolegol.

Ond ar y llaw arall, credai nifer bod y syniad o blant yn creu gwybodaeth eu hun o ymateb gyda'r amgylchedd ddim yn gwbl wir. Felly os ystyrir amgylchedd o ysgolion, mae'n bosib dadlau bod athrawon yn creu'r amgylchedd er mwyn i'r plant gallu archwilio (Slater a Bremner, 2011, tud. 308). Ac felly'r syniad yw bod athrawon yn scaffaldio er mwyn arwain y plant ar y trywydd iawn.

Gwerthusiad

Daeth y term o 'ymarfer myfyriol' o llyfr 'The Reflective practitioner' gan Schon yn 1985. Roedd gwaith Schon yn ddylanwadol ar sut roedd gweithwyr proffesiynol yn 'ymarfer myfyriol' (Marbina, Church a Tayler, 2010, tud. 7).

Mae'r term 'ymarfer myfyriol' hefyd yn cael ei ddefnyddio yn gyfnewidiol gyda'r term 'adfyfrio beirniadol'. Er bod y ddau derm yn defnyddio'r syniad o feddwl am y digwyddiad, mae adfyfrio beirniadol yn trio cael proffesiynwyr i ystyried agweddau arall sydd wedi dod o ryw fath o ddigwyddiad neu brofiad dysgu. Er enghraifft cefndir y digwyddiad, diwylliant a hefyd sut byddai'r digwyddiad yn effeithio dysgu'r dyfodol. Yn ogystal â hyn mae Marbina, Church a Tayler (2010, tud. 9) yn dweud bod elfen arall i adfyfrio beirniadol sef

“professionals critique practice in light of their own assumptions about children’s learning and development and question what beliefs and values they bring to their practice.”

Felly maent (Marbina, Church a Tayler, 2010, tud 9) yn trio dadlau dylai adfyfrio beirniadol rhoi cyfle i broffesiynwyr mewn addysg meddwl am y gwerthoedd sydd yn bwysig iddyn nhw mewn addysg.

Yn ôl Mathew et al (2017, tud. 1) mae adfyfrio athrawon yn rhan hanfodol mewn hyfforddi athrawon yn y system addysg. Mae ansawdd y dysgu yn effeithio ar sut mae athrawon yn mynd i ddysgu. Ac yn amlwg trwy athrawon yn cwestiynu strwythurau dysgu, mae'n arwain at well dealltwriaeth o'r disgyblion a'r ffordd gorau o gynyddu perfformiad y dysgwyr.

Mae defnydd o adfyfrio beirniadol yn effeithiol iawn wrth feddwl am achosion critigol, gan fod ffocws ar y fframweithiau i gael canlyniadau cadarnhaol. Felly ar gyfer yr achos critigol hwn penderfynwyd defnyddio model Beirniadai Wedi Adfyfrio gan Gibbs (1998). Mae'r

strwythur adfyfyrion hyn wedi neud i fi ystyried agweddau da ac efallai agwedd bydd angen i fi ystyried wrth fynd trwy'r byd addysg.

Wrth wyllo'r achos critigol roeddwn i wedi cael braw wrth weld sut oedd y plant wedi ymdrin â defnyddio'r clyniaduron. Roeddwn i wedi synnu sut mae plant sydd wedi cael eu magu mewn diwylliant technolegol ddim yn gwybod sut i ddefnyddio clyniadur. Yn amlwg cymrais yn ganiataol bod plant oedd yn gwybod sut i ddefnyddio dyfeisiau digidol, fel l-pads, yn mynd i wybod sut i ddefnyddio clyniadur.

Mae'n anodd penodi un syniad neu achosiaeth sydd wedi arwain i'r plant welais i, yn trio defnyddio'r clyniaduron fel l-pads. Yn amlwg roedd yr ymddygiad hwn ond wedi cael ei weld gyda dau blentyn allan o ddau ddeg pump o blant y dosbarth, ac felly nid oes modd cyffredinol i'r ymddygiad.

Fel rydw i wedi trafod yn flaenorol mae'r maes o ymchwil sydd yn edrych ar effaith technoleg ar sgiliau echddygol manwl yn cymharol newydd. Nid oedd yn glir wrth yr achos critigol yma os oedd y ddau blentyn gyda phroblemau eraill sgiliau echddygol manwl, er enghraifft sgiliau ysgrifennu a thorri. Yn ogystal, nid oedd gennaf y wybodaeth gefndirol i faint oedd y plant yn defnyddio i-pads cartref, ac efallai diwylliant y teuluoedd oedd defnyddio l-pads dros ddefnyddio clyniaduron. Ac o ganlyniad roedd profiad y plant o ddefnyddio clyniaduron yn llym. Mae'n bosib gan fod y plant yn rhai llai'r blynyddoedd ysgol, efallai hyn oedd un o'r gwersi cyntaf roeddent wedi cael ar ddefnyddio clyniaduron. Ond ar y llaw arall yn cyd-fynd gyda syniad Piaget o ddatblygiad, efallai bod angen i'r plant bod yn yr amgylchedd a chael fwy o brofiadau go iawn o ddefnyddio clyniaduron yn y dosbarth.

Mae'r achos critigol hyn wedi uwchleuo faint mae defnydd o l-pads yn gallu effeithio ar broses o feddwl y plant. Er enghraifft efallai roedd y ddau blentyn yn meddwl bod pob math o ddyfais ddigidol yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd a l-pads. Y camau nesaf byddai rhoi fwy o gyfleoedd i blant defnyddio clyniaduron fel rhan o wersi, felly eu bod nhw yn dod yn fwy ymwybodol a hyderus wrth ddefnyddio nhw. Mae'r syniad hyn yn dod o waith Piaget, lle bod plant yn cael fwy o brofiadau yn yr amgylchedd. Bydd hyn yn elfen bwysig i ystyried gyda'r cwricwlwm newydd sydd i ddod yn 2022, gan fod y cwricwlwm yn pwysleisio bod eisiau i blant cael profiadau.

Yn ogystal â hyn efallai byddai'n syniad cadw cofnod o ddatblygiad sgiliau echddygol manwl y dosbarth, ac os oes angen ymyrraeth ar unigolion gan fod y sgil yn rhywbeth hanfodol yn fywyd plant ac oedolion. Er mwyn sicrhau'r datblygiad hwn efallai bydd angen sicrhau bod

gan y plant cyfleoedd parhaus o weithgareddau sydd yn hybu datblygiad sgiliau echddygol yn y dosbarth. Yn ogystal a hyn bydd yn syniad i fod yn fwy ymwybodol o faint o amser mae plant yn y dosbarth yn gwario ar ddyfeisiau digidol, i gymharu â gweithgareddau sgiliau echddygol manwl.

Casgliad

Yn 2012 roedd ond 11% o dai Prydain yn cael l-pads, ond yn 2018 gwnaeth Ofcom cyhoeddi erthygl oedd yn dangos bod defnydd o l-pads yn dai Prydain wedi cynyddi i 57%. Mae'r parhad o erthyglau papur newydd (The Telegraph, 2018) yn adlewyrchu'r syniad bod defnydd o dechnoleg yn effeithio sgiliau echddygol manwl ac yn lleihau profiadau bywyd go iawn.

Dadleuai Cohen, Manion a Marrison (2017, tud. 404) bod defnydd o achos critigol weithiau uwchleuo ymddygiad penodol mewn unigolion eraill. Fel disgrifir uchod roedd un plentyn wedi ymddangos yn defnyddio clyniadur fel l-pad ac yna roedd wedi tynnu sylw at blentyn arall oedd yn neud yr un peth. Roedd y dull hwn o arsylwi ddim yn penodi'r ymchwilydd i edrych am un ymddygiad penodol, ond wedi rhoi rhyddid i ddehongli ymddygiad oedd yn bwysig i'r ymchwilydd neu o ddiddordeb.

Roedd llenyddiaeth y papur wedi arddangos nad oedd llawer o ymchwil oedd yn benodol yn cysylltu defnydd o dechnoleg ar sgiliau echddygol manwl. Wrth ymchwilio arddangosodd bod ymgyrchoedd (Write Your Future) oed dal yn ystyried y sgil o ysgrifennu a sgiliau echddygol yn rhan hanfodol o fewn addysg a bywyd pob dydd. Ond fel dadleuai Hinrichs a Quigley (2015) mae modd o gyfuno'r defnydd o dechnoleg a datblygu'r sgil o ysgrifennu.

Mae pwysigrwydd o blant yn dysgu o'r amgylchedd wedi bod yn rhan o theorïau ers I Piaget ddatblygu'r syniad yn 1936. I raddau gallwn ddadlau bod yr achos critigol hwn wedi arddangos pwysigrwydd o blant yn cael profiadau, gan oedd yn amlwg roeddent ond wedi cael profiad o ddefnyddio l-pads ac nid clyniaduron.

Wrth ymdrin ar ymchwil hyn roedd yn bwysig cadw mewn cof y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Trwy ddefnyddio'r model Beirniadau Wedi Adfyfrio (BWA) roeddent wedi cadw at un o'r prif safonau sef Dysgu Proffesiynol trwy ddangos

adfyfyrto ar beth welwyd yn ystod yr achos critigol, a sut byddai hwn yn hysbysu gwell dysgu ac addysgu yn y dyfodol.

Cyfeirnodau

1. Cambridge: NHS (2018) *Fine Motor Skills Children's Therapy Services*. Ar gael ar lein: [https://www.cambscommunityservices.nhs.uk/docs/default-source/leaflets---children's-ot-service---april-2015/0052---fine-motor-skills---april-2018-\(v2\).pdf?sfvrsn=4](https://www.cambscommunityservices.nhs.uk/docs/default-source/leaflets---children's-ot-service---april-2015/0052---fine-motor-skills---april-2018-(v2).pdf?sfvrsn=4) (Darllenwyd: 22 Hydref 2019).
2. Cohen, L, Manion, L a Morrison, K (2017) *Research Methods in Education*. 8fed Arg. Oxon: Routledge.
3. Estyn (2018). *A report on* [redacted] Ar gael yn: [https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/\[redacted\].pdf](https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[redacted].pdf) [redacted] %20en.pdf (Darllwenwyd: 12fed Hydref. 2019).
4. Gremler, D. (2004). The Critical Incident Technique in Service Research. *Journal of Service Research*, 7(1), pp.65-89. Ar gael yn: <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/1094670504266138> (Darllenwyd: 19 Hydref 2019)
5. Hatch, K. (2011). *Determining the Effects of Technology on Children*. Rhode Island: University of Rhode Island, p.22. Ar gael yn: <https://digitalcommons.uri.edu/cgi/viewcontent.cgi?referer=&httpsredir=1&article=1212&context=srhonorsprog> (Darllenwyd: 22 Hydref 2019)
6. Huitt, W. and Hummel, J. (2003). Piaget Theory of Cognitive Development. Ar gael yn: https://intranet.newriver.edu/images/stories/library/Stennett_Psychology_Article/Piagets%20Theory%20of%20Cognitive%20Development.pdf (Darllenwyd: 25 Hydref 2019).
7. Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*. Cardiff: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf> (Darllenwyd: 24 Hydref 2019)
8. Mathew, P., Mathew, P. a Peechattu, P. (2017). *Reflective Practices: A Means to Teacher Development*. Karnataka: Asia Pacific Journal of Contemporary Education and Communication Technology Ar gael yn: https://apiar.org.au/wp-content/uploads/2017/02/13_APJCECT_Feb_BRR798_EDU-126-131.pdf (Darllenwyd: 26 Hydref 2019).
9. Ofcom (2018). *Communications Market Report*. Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/117256/CMR-2018-narrative-report.pdf (Darllewnwyd: 23 Oct. 2019).
10. Palmer, S (2007) *Toxic Childhood: How The Modern World Is Damaging Our Children And What We Can Do About It*. Llundain: Orion Books Ltd.
11. Punch, K (2011) *Introduction to Research Methods in Education*. Arg 1af. Llundain: Sage Publications Ltd.
12. Reporters, T. (2018). *Children struggle to hold pens because of excessive use of iPads, claim experts*. [Ar-lein] The Telegraph. Ar gael yn:

- <https://www.telegraph.co.uk/science/2018/02/25/children-struggle-hold-pens-excessive-use-ipads-claim-experts/> (Darllenwyd: 13 Oct. 2019).
13. Slater, A a Bremner, G (2011) *An Introduction to Developmental Psychology*. 2ail Arg. British Psychology Society a Blackwell Publishing Ltd.
 14. Smidt, S. (2013). *The Developing Child*. 2nd Arg. Ar gael yn: <https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/readonline/9780203483640> (Darllenwyd: 13 Hydref 2019).
 15. Strevig, A. (2010). *The Effects of Directed Fine Motor Activities on Kindergarten Students* Ar gael yn: <https://pdfs.semanticscholar.org/5e70/ca827930a666a684c7b358f88d7508449f80.pdf> (Darllewnyd: 22 Hydref 2019).
 16. Wales.nhs.uk (2019). *Betsi Cadwaladr University Health Board - Fine Motor Skills*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/91385> (Darllenwyd: 12 Oct. 2019).
 17. Wakefield, J. (2018). *Can kids hold pens in the digital age?*. [Erthygl Ar-lein] BBC News. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/technology-43230884> (Darllenwyd: 17eg Hydref. 2019).
 18. Writeyourfuture.com. (d.d.). *Write Your Future*. Ar gael yn: <http://www.writeyourfuture.com/> (Darllewnyd: 19ain Hydref. 2019).

Atodiad 1

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19

Manylion y wers:

- 25 o blant yn y dosbarth.
- Gallu cymysg, ond mae'r plant wedi grwpio yn ôl gallu.
- Y dosbarth arsylwi oedd blwyddyn 1.
- Doedd dim defnydd o gynorthwyydd dosbarth yn ystod y wers hon.
- Parheuoedd y wers am awr

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

- Rhai unigolion y dosbarth yn crwydro o dasgau oedd heb gwblhau.
- Plant wedi rhannu mewn i grwpiau i gwblhau tasgau gwahanol o amgylch y dosbarth.
- Rhan fwyaf o'r plant yn aros ar y tasgau a osodwyd gan yr athrawes.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

- Roedd pwrpas clir sef adolygu ffurfio llythrennau trwy Dric a Chlic.
- Llawer o gyfleoedd o ddarlenn ac ysgrifennu'r llythrennau penodol.
- Hefyd wedi cyfuno defnydd o gymhwysedd digidol ac adolygu llythrennau.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

- Roedd yr athrawes dosbarth wedi modelu sut i gyflawni siart bar ar we fan hwb, felly roedd y disgyblion yn glir am beth roedd rhaid iddynt neud.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

- Roedd pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers.
- Ond roedd o fyfyrwyr gyda diffyg sgiliau ysgrifennu.
- Roedd y myfyrwyr oedd o fwy gallu fel arfer yn gorffen y dasg yn gyflym.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Parheuoedd yr athrawes i gwestiynu'r plant trwy gydol y wers, yn unigol ac ar lafar i'r dosbarth am beth oedd y geiriau Tric a Chlic oeddent wedi ysgrifennu.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Roedd un adeg ble gofynnod un plentyn i ddarllen allan beth oedd wedi ysgrifennu, ac ymatebodd gyda "Dwi ddim yn gallu darllen".

Ar un adeg tynnodd yr athrawes sylw at blentyn oedd yn gweithio yn annibynnol ar y llythrennau roedd wedi ffurfio.

Atodiad 2



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19
Manylion y wers: 25 o blant yn y dosbarth. - Gallu cymysg, ond mae'r plant wedi grwpio yn ôl gallu. - Y dosbarth arsylwi oedd blwyddyn 1. - Doedd dim defnydd o gynorthwydd dosbarth yn ystod y wers hon. - Parheuoedd y wers am awr.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Roedd y plant wedi aros ar dasg trwy gydol y gweithgaredd. - Ond roedd rhai unigolion oedd yn parhau i gael sylw penodol yr athrawes.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Pwrpas clir i'r wers oedd yn ehangu ar ddysgu blaenorol. - Yn y gwrs blaenorol roedd rhaid meddwl am flwch brechdan iachus. Felly roedd yn rhaid i'r grwpiau creu siart bar i ddangos hoff ffrwythau'r dosbarth. - Roedd hefyd rhaid iddynt gysylltu geiriau a lluniau o ffrwythau yn ei lyfrau.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd yr athrawes dosbarth wedi modelu sut i gyflawni siart bar ar we fan hwb, felly roedd y disgyblion yn glir am beth roedd rhaid iddynt neud. - Ar lafar esboniodd yr athrawes amcanion dysgu ar gyfer torri a gludo'r geiriau a lluniau o ffrwythau. - Roedd yr athrawes hefyd yn cerdded o amgylch y dosbarth er mwyn sicrhau bod pawb yn aros ar dasg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) - Roedd llawer o'r plant wedi ffeindio hi'n anodd torri'r lluniau allan yn daclus gan ddefnyddio siswrn. - Nid oedd llawer o luniau a geiriau ac felly roedd y dasg yn cael ei orffen yn gyflym.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

- Mae'r athrawes yn cwestiynu'r plant mewn grwpiau i ddarfod y fath o ffrwythau sydd wedi cael eu dewis, a chanfyddiadau'r siart bar.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Gofynnodd yr athrawes i'r plant i eistedd mewn cylch ar y carped er mwyn cyflawni'r dasg siart bar, ac roedd un unigolyn yn parhau i symud i mewn i'r cylch fel nad oedd y plant arall yn gallu gweld beth oedd yn digwydd ar yr l-pad.

Roedd yr athrawes yn tynnu sylw at un plentyn oedd yn arddangos eistedd delfrydol er mwyn modelu i'r plant sut oedd yn disgwyl i weddill o'r dosbarth eistedd.

Atodiad 3



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: ▪ 25 o blant yn y dosbarth. ▪ Gallu cymysg, ond mae'r plant wedi grwpio yn ôl gallu. ▪ Y dosbarth arsylwi oedd blwyddyn 1. ▪ Doedd dim defnydd o gynorthwyydd dosbarth yn ystod y wers hon. ▪ Parheuoedd y wers am awr.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) ▪ Plant wedi rhannu mewn i grwpiau i gwblhau tasgau gwahanol o amgylch y dosbarth. ▪ Rhan fwyaf o'r plant yn aros ar y tasgau a osodwyd gan yr athrawes. ▪ Roedd rhydded gan y plant i gwblhau'r tasgau yn annibynnol. ▪ Dim ond rhai adegau roedd y plant yn colli canolbwyntied.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) ▪ Gweithgaredd datblygu cymhwysedd digidol. ▪ Tasg wedi cysylltu â dysgu blaenorol. ▪ Cyfle i ddatblygu trwy chwarae gyda thwba dinosoriaid, a lliwio dinosoriaid er mwyn datblygu sgiliau echddygol symud.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) ▪ Aeth yr athrawes o amgylch pob gweithgaredd o amgylch y dosbarth a modeli. ▪ Creu meini prawf llwyddiant ar larfa'r ar sut oedd cyflawni'r dasg yn dda, er enghraifft lliwio i mewn i'r llinellau gyda dinosoriaid.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) ▪ Roedd y disgyblion yn y grwpiau fwy gallu yn cael eu herio i greu brawddeg oedd yn fwy estynedig a disgrifiadol. ▪ Roedd teipio ar y clyniadur yn rhywbeth newydd i'r plant ac felly yn her.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

- Gweithiodd yr athrawes yn agos gyda'r plant ar sut i ddefnyddio a ffeindio gwahanol fotymau ar y clyniadur, trwy ofyn cwestiynau.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Dau blentyn yn trio defnyddio clyniadur fel l-pad. Nid oedd yn gwybod sut i ddefnyddio llygoden y clyniadur (track pad), ac felly roedd e nhw'n trio defnyddio ei fys ar y sgrin i drïo tynnu llyn.

Atodiad 4

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: ▪ 25 o blant yn y dosbarth. ▪ Gallu cymysg, ond mae'r plant wedi grwpio yn ôl gallu. ▪ Y dosbarth arsylwi oedd blwyddyn 1. ▪ Doedd dim defnydd o gynorthwydd dosbarth yn ystod y wers hon. ▪ Parheuoedd y wers am awr.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) ▪ Rhan fwyaf o'r plant yn aros ar y dasg a oedd yn cael eu harwain gan yr athrawes. Ond roedd rhai disgyblion yn gweiddi ar draws yr athrawes.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) ▪ Enw ar y wers oedd 'Sesiwn Clic', sef wers fathemateg. ▪ Roedd nod a chwestiynau yn glir wedi cael ei rhoi ar flaen y dosbarth ar y bwrdd gwyn.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) ▪ Roedd y plant i gyd yn glir ar y wers a beth oedd angen iddynt wneud, gan fod yr athrawes yn modelu trwy gydol y wers ar sut roedd rhaid ateb y cwestiynau yn glir.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) ▪ Gan fod y wers wedi cael eu gwneud fel dosbarth nid oedd gan grwpiau'r gwahaniaethu. ▪ Roedd yr athrawes yn gofyn i blant penodol ateb cwestiynau oedd yn ei gallu nhw.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

- Trwy gydol y wers roedd yr athrawes yn cwestiynu ar flaen y dosbarth ar beth oeddent yn gwneud a sut i'w gyflawni.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Roedd un plentyn yn blaen y dosbarth yn gweiddi allan ac yn trio cael sylw'r athrawes a gan weddill y plant yn y dosbarth. Nid oedd y plentyn yn trio cael yr atebion yn gywir ond yn trio tynnu sylw.

Atodiad 5



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn ddim yn gallu darllen

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Roeddwn i wedi sylwi roedd llawer o blant y dosbarth yn cael trafferth gyda llawysgrifen. - Roeddwn i hefyd yn teimlo yn drist iawn drist y plentyn bach oedd wedi ymateb yn dweud nad oedd yn gallu darllen. - Teimlais nad oedd llawer o hyder ganddo i ddarllen o flaen y dosbarth.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Roedd y plant yn cael ymarfer ei sgiliau llawysgrifen, a'i sgiliau darllen - Gofynnodd yr athrawes i un plentyn i ddarllen y geiriau roedd wedi darllen ar ei ddarn o bapur. - Ymatebodd y plentyn yn dweud "Dwi ddim yn gallu darllen".
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Roedd y plant wedi cael llawer o ymarfer ffurfio llythrennau a datblygu sgiliau echddygol symud, sydd yn agwedd pwysig o ddatblygiad plant yn y cyfnod Sylfaen. - Wrth benodi un llythyren yr wythnos roeddent yn perffeithio un llythyren ac yna yn symud ymlaen i lythyren newydd. - Roedd y weithgaredd hefyd yn hybu darllen.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Un ateb posib byddai gwario fwy o amser yn ymarfer darllen gyda'r unigolyn ac i hybu hyder darllen. - Efallai bydd angen gwneud fwy o ymarferion darllen ar lafar i'r dosbarth fel eu bod yn dod ar arfer o ddarllen o flaen y dosbarth.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 6



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn yn gorchuddio l-pad.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	- Teimlaf fod y plant wedi mwynhau llawer wrth greu siart bar gyda'r athrawes. - Roeddwn i'n teimlo fel bod llawer o amser wedi gwastraffu gan fod yr athrawes yn gorfod tynnu sylw at un plentyn penodol oedd yn trio eistedd yn y ffordd o'r l-pad
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	- Roedd y plant yn eistedd mewn cylch, ac yn defnyddio un l-pad fel modd o greu siart bar o hoff ffrwythau'r dosbarth. - Gofynnodd yr athrawes i bawb eistedd nôl fel bod pawb yn gallu gweld. - Roedd un unigolyn yn cadw i symud i mewn i'r cylch fel nad oedd gweddill y plant yn gallu gweld. - Roedd yr athrawes wedi gofyn i'r unigolyn symud nôl nifer i weithiau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	- Roedd defnydd o'r wefan 'Hwb' wedi gwneud yn hawdd i'r disgyblion dilyn strwythur o greu siart bar, a hefyd yn y ffordd oeddent yn gallu mynegi'r canfyddiadau. - Roedd y plant wedi dysgu sut bydd mynd ati i greu siart bar yn unigol, ac yn dda er mwyn gwella sgiliau cywhysedd digidol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	- Efallai bydd angen rhannu'r grwpiau mewn i bartneriaid fel bod pob plentyn yn gallu gweld a chael cyfle i wneud siart bar eu hun. - Gallwn greu cynllun ymddygiad penodol ar gyfer yr unigolyn fel nad oedd yr ymddygiad yn digwydd eto.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 7

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Clyniadur fel I-pad

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	- Roeddwn i wedi synnu yn fawr ar sut roedd y plant wedi ymateb i drio defnyddio'r clyniadur. - Teimlaf fod y digwyddiad wedi uwchleuo effaith mae defnydd o I-pads yn cael ar blant.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	- Pwrpas y wers oedd datblygu sgiliau cymhwysedd digidol. - Wrth i'r plant dechrau defnyddio'r clyniaduron gwelais fod ddau blentyn yn trio defnyddio ei fys ar sgrin y clyniadur fel I-pad. - Er roedd yr athrawes wedi dweud wrthynt nad oedd y clyniadur yn gweithio fel hynny roedd y plant dal i drio defnyddio ei fys ar y sgrin i dynnu llun ac ysgrifennu.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	- Roedd y gweithgaredd yn datblygu sgiliau cymhwysedd digidol trwy ddysgu sut i ddefnyddio a theipio ar glyniadur. - Efallai bydd angen gwario fwy o amser a rhoi mwy o gyfleoedd i blant defnyddio cyniaduron yn y dosbarth. - Gallent greu gwers yn benodol i edrych ar sut i ddefnyddio'r clyniaduron cyn gwneud y gweithgaredd, gan roedd angen y plant llawer o sylw ac amser yr athrawes
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	- Un ffordd o ddatrys y broblem uchod fyddai i wneud fwy o weithgareddau ar y clyniaduron fel bod y plant yn gallu dod yn fwy annibynnol wrth eu defnyddio. - Gwneud yn siŵr bod gweithgareddau o amgylch y dosbarth yn sicrhau datblygiad o sgiliau echddygol manwl.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 8



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn yn tynnu sylw

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	- Roeddwn i'n teimlo yn eithaf blin drosto weddill y dosbarth gan fod un plentyn yn cadw i dynnu sylw'r athrawes a gweddill y dosbarth. - Teimlaf nid oedd y plentyn eisiau bod yn rhan o'r wers, ond i dynnu sylw i ffwrdd o'r athrawes.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	- Yn ystod 'Sesiwn Clic' mathemateg roedd yr holl ddosbarth yn eistedd ar y carped ac yn ateb cwestiynau gyda'i gilydd. - Roedd un plentyn oedd yn trio tynnu sylw'r athrawes wrth weiddi allan atebion nad oedd yn gywir ac yn trio i gael gweddill y dosbarth i ymuno a hi - Roedd yr athrawes wedi gorfod tynnu llawer o sylw ati er mwyn atgoffa'r plentyn fel oedd bod i ymddwyn yn ystod sesiynau clic.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	- Roedd y plant yn cydweithio ac yn helpu ei gilydd trwy weithio ar y carped. - Roedd y plant yn amlwg yn hoffi ac yn mwynhau sesiynau clic. - Roedd y sesiynau yn fach ac yn cadw sylw rhan fwyaf y plant yn ystod y wers.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	- Creu meini prawf llwyddiant ar gyfer ymddygiad er mwyn uwchleuo sut fyddai'r athrawes eisiau plant i ymddwyn yn ystod y sesiynau. - Efallai bydd angen creu cynllun ymddygiad i'r plentyn unigol oedd yn cadw i dorri ar draws yr athrawes.
Y profiad newydd / Transformed experience	